# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1367(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 22 Chwefror 2010

**At Joyce Watson:**

Yn y cyfarfod llawn ar 27 Ionawr, addawais i roi manylion ichi ynghylch y cynlluniau i ailddyblu'r rheilffordd rhwng cyffordd y Cocyd a chyffordd Gorllewin Dyffryn, a'r cyllid ar gyfer gwella'r gwasanaethau i'r gorllewin o Abertawe.

Gallaf gadarnhau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu'r gwaith o ailddyblu'r rheilffordd sengl rhwng cyffordd y Cocyd a chyffordd Gorllewin Dyffryn, gan mai dyna un o ymrwymiadau'r Flaenraglen Reilffyrdd a'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Mae dal disgwyl i'r cynllun hwn, sy'n cynnwys gwaith gan Network Rail i ailosod traphont y Llwchwr, gael ei gwblhau erbyn 2013.

Bydd ailddyblu'r rheilffordd hon yn gwella'n sylweddol berfformiad y gwasanaethau cyfredol ac mae'n golygu y bydd modd i wasanaethau redeg yn fwy aml yn y dyfodol, yn amodol ar achos busnes priodol.

Fy mlaenoriaethau ar hyn o bryd yw cyflawni'r cynlluniau a nodir yn fy Mlaenraglen Reilffyrdd, ond bydd fy swyddogion yn trafod y blaenoriaethau gyda Chonsortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru fel rhan o'r broses Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1347(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Diprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 22 Chwefror 2010

**At Kirsty Williams:**

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 27 Ionawr, cytunais i ysgrifennu atoch i roi'r rhesymau pam ei fod yn anodd gweithredu cynllun teithio'n rhatach ar fysiau ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl ar hyn o bryd.

Mae'r Ddeddf Teithio Consesiynol ar Fysiau 2007 yn gwneud darpariaeth am gynllun ledled y DU, a bu fy swyddogion yn trafod â chydweithwyr yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban, ynghylch posibiliadau cynllun o'r fath. Fodd bynnag, mae problemau sylweddol ariannol ac o ran gweithredu'r cynllun sydd angen eu datrys yn gyntaf.

Mae gan y cynllun yn Lloegr hawliau gwahanol sy'n cyfyngu'r teithio i adegau tawel ac yn eithrio nifer o gwmnïau bysiau gwahanol. Hefyd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth wedi cyhoeddi cynlluniau yn ddiweddar i godi'r oedran cymhwyster am bàs teithio am ddim i gyd-fynd â'r cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth. Bydd angen amser i'r newidiadau hyn setlo i lawr. Nid oes gan ein cynllun yng Nghymru yr un cyfyngiadau teithio, ac nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i godi'r oedran cymhwyster am bàs teithio am ddim. Hefyd, mae gan awdurdodau lleol yma y disgresiwn i ganiatáu i ddeiliaid pas o Gymru deithio am ddim i leoliadau yn Lloegr ac yn ôl, ble y byddai'n haws iddynt gynnal eu busnes arferol, yn hytrach na gorfod teithio'n bellach yng Nghymru. Cyn belled ag y gwn, nid oes trefniant o'r fath yn gweithredu yn Lloegr. Ni fyddwn yn dymuno cynllun ledled y DU a fyddai yna'n lleihau'r hawliau sy'n cael eu mwynhau gan bobl oedrannus ag anabl yng Nghymru.

Mae gwahaniaethau hefyd yn sut y mae awdurdodau'n cael eu hariannu i ad-dalu costau cwmnïau bysiau. Yn Lloegr, caiff awdurdodau lleol eu hariannu trwy Setliad Refeniw Llywodraeth Leol. O dan y trefniadau hyn, mae rhai awdurdodau wedi hawlio nad oedd y cyllid a dderbyniwyd yn ddigonol i dalu'r costau dan sylw. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ad-dalu awdurdodau lleol yn llawn am wariant archwiliedig wrth dalu costau cwmnïau bysiau, yn ogystal â thâl am bob pas sy'n cael ei ddefnyddio, i dalu eu costau gweinyddu.

Ni ddylem ychwaith anghofio'r costau ariannol sylweddol i Gymru o ymuno â chynllun y DU, gan ei fod yn debygol o greu mwy o deithio pell. Fe fyddwn am fod yn fodlon bod unrhyw gynllun yn fforddiadwy wrth wynebu penderfyniadau gwariant yn y dyfodol, sy'n debygol o fod yn dynn iawn. Cynhaliwyd adolygiad manwl gennyf yn ddiweddar o'r cynllun presennol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn fforddiadwy ac yn rhoi gwerth am arian.

Rwy'n rhoi copi o'r llythyr hwn a'r trafodaethau rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth a'r Pwyllgor Materion Cymreig yn y Llyfrgell.